Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Aled Llansannan

**Llansannan**
**Dinbych**
**Conwy**
**LL16 5HN**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Aled Llansannan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Aled Llansannan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 64 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 59 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 6.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 3.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 85.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/10/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/02/2024 |
| Mae'r pennaeth newydd gymryd cyfrifoldeb fel pennaeth dros dro mewn ysgol gyfagos, sy'n ychwanegol i'w swydd fel pennaeth Ysgol Bro Aled. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Bro Aled yn ysgol gynhwysol a chyfeillgar, sy'n hyrwyddo ethos gofalgar yn llwyddiannus. Mae perthnasoedd gwaith pwrpasol yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy'n cefnogi amgylchedd cadarnhaol ac yn meithrin ymdeimlad cryf o ddysgu a lles ymhlith disgyblion.

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu yn yr adeilad ac o gwmpas tir yr ysgol, ac maent yn frwdfrydig a chydwybodol yn ystod gwersi a thasgau. Maent yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u cynefin. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol, gwrando, siarad, darllen, rhifedd a chymwyseddau digidol cadarn. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn gwbl effeithiol.

Mae'r cynllunio o ran y cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol. Mae deilliannau disgyblion yn dda lle mae'r cynllunio, yr addysgu a'r adborth ar eu gwaith yn heriol a chyson. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod gweithgareddau'n herio'r disgyblion yn ddigon cyson. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn ddigon pwrpasol.

Mae staff yn cefnogi a gofalu am ddisgyblion yn ddiwyd. Mae hyn yn cyfrannu at les disgyblion a'u hawydd i ddysgu a dyfalbarhau â thasgau. Mae staff yn annog disgyblion yn effeithiol i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a'u hymddygiad eu hunain ac i gofleidio'u hapusrwydd. O ganlyniad, mae'r cymorth emosiynol i ddisgyblion yn nodwedd gadarn yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn fwriadus ac yn sicrhau bod dysgu a lles y disgyblion yn flaenoriaethau pwysig. Mae hyn yn sail i'w weledigaeth. Mae'n gweithio'n gynhyrchiol gyda'r staff a'r llywodraethwyr i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu lewyrchus, sy'n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol ac ysgogol i ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn drwyadl, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso rheolaidd, sy'n arwain at gynlluniau datblygu pwrpasol. Mae gweithgareddau monitro'r ysgol yn arwain at gyfleoedd hyfforddi perthnasol i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn a buddiol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio'n effeithiol er mwyn gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion

A2 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

A3 Darparu gweithgareddau sy'n herio'r disgyblion yn effeithiol a rheolaidd

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o’r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy’n cyfateb i, neu’n uwch na, yr hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Maent yn cyflawni’n dda o ran eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n effeithiol ar oedolion ac ar ei gilydd, gan ymateb yn frwdfrydig i heriau a chyflwyniadau. Mae medrau llafar disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu’n bwrpasol. Erbyn Blwyddyn 1, maent yn sgwrsio'n huawdl, er enghraifft wrth ragfynegi eu barnau tra’n cymysgu lliwiau gyda dŵr a iâ. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu medrau llafar llwyddiannus yn y Gymraeg a’r Saesneg. Maent yn cyfathrebu’n hyderus ac yn cyfrannu’n fwriadus mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barn yn eglur ac aeddfed. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio’n naturiol wrth gynnal trafodaethau â’i gilydd o fewn eu dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod dda o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn ddeallus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen dibynadwy yn synhwyrol gan egluro cynnwys darnau yn gywrain. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn hyderus mewn cyd-destunau gwahanol ac yn amrywio goslef eu lleisiau yn fwriadus. Yn ogystal, maent yn defnyddio eu huwch fedrau darllen yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth iddynt ddarganfod gwybodaeth am fywyd a dewrder Rosa Parks. Mae hyn yn dyfnhau eu dealltwriaeth o gyfiawnder a hawliau dynol yn effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o’r disgyblion yn datblygu’n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, fel creu calendr i ‘godi calon’ a disgrifio gwibdeithiau mewn peiriant amser. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd a pharagraffu. Maent yn addasu arddull a strwythur yn ôl gwahanol destunau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ailadrodd hanes y Cymry cynnar ym Mhatagonia yn gelfydd. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn adeiladu’n systematig wrth iddynt deithio trwy’r ysgol.

Yn nosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion

ieuengaf yr ysgol afael dda ar ffeithiau rhif hyd at 10, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn hyderus wrth gyfrifo rhifau hyd at 100. Yn ogystal, maent yn disgrifio nodweddion a phriodweddau siapiau tri-dimensiwn yn gywir tra'n adeiladu Tŵr Eiffel gyda malws melys a sbageti. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau mathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn llunio graffiau yn hyderus wrth gofnodi pwysau'r sbwriel a gasglwyd ar daith o amgylch y pentref, ac yn dadansoddi data'n effeithlon wrth gymharu curiadau eu calonnau tra'n ymarfer eu cyrff. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth sicr o gysyniadau mathemategol, ac yn ei dro, yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol da. Maent yn mewngofnodi'n hyderus ar lwyfannau digidol i gael mynediad i'w gwaith. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud defnydd da o feddalwedd priodol, fel animeiddio'n effeithiol i gofnodi helyntion yr Eifftiaid a'r Rhufeiniaid. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â'r offer a'r meddalwedd mwyaf effeithiol i'w hystyried at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o raglenni cyflwyno gwybodaeth yn dda, fel mewnosod testun a graffeg i wella cyflwyniadau a chreu cipluniau ar lyfrau awdur enwog.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig yn dda. Mae disgyblion iau yn creu celf mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, o'r meithrin i Flwyddyn 1, mae disgyblion yn cydweithio'n dda i gymharu lliwiau yn eu gwaith, sy'n adlewyrchu eu hastudiaethau annibynnol o enfys ar orwel a chymesuredd pili-pala. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu creadigrwydd. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion hŷn yn defnyddio siapiau yn annibynnol i ddehongli ac efelychu gwaith artist lleol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel o fewn naws deuluol a gofalgar yr ysgol. Maent yn ystyried eu bod yn cael eu trin â pharch a bod eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae ymddygiad bron bob disgybl o fewn gwersi, gweithgareddau ac amseroedd egwyl yn ardderchog. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gydwybodol a chytûn â'u cymheiriaid. Maent yn gwrtais, yn ymwybodol o anghenion eu cyfoedion ac yn dangos parch a gofal amlwg tuag at oedolion cyfarwydd ac ymwelwyr. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau canmoladwy at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau gan staff ac yn canolbwyntio'n dda wrth ymroi i'w tasgau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder at eu pentref a'u hysgol, ac maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a threftadaeth Cymru. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at les ac agweddau dysgu'r disgyblion, ac mae cyfraniadau'r disgyblion yn ganolog i ethos a gweledigaeth yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu'n ddeallus am nodweddion cyfeillgarwch ac mae eu sylwadau'n cael eu hadlewyrchu'n llwyddiannus ar 'Wal Codi Calon' yr ysgol. Mae hyn yn ysgogi

disgyblion i ddeall bod eu perthnasoedd yn hollbwysig i'w datblygiad fel unigolion cyflawn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu technegau meddwl perthnasol i’w helpu i lwyddo a dyfalbarhau wrth ddatrys problemau cyn gofyn am gymorth. O ganlyniad, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dechrau datblygu dygnwch a hyder wrth ddyfalbarhau â'u gwaith yn eu dosbarthiadau ac wrth ymroi i dasgau yn yr awyr agored. Yn ogystal, mae presenoldeb disgyblion yn dda, ac yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn dylanwadu’n gadarnhaol ar themâu'r dosbarthiadau. Er enghraifft, maent yn manteisio ar y cyfle i rannu eu diddordebau a'u dyheadau wrth gyfrannu i fapiau meddwl sy’n ymwneud â’u ‘cwestiynau mawr’. O ganlyniad, maent yn datblygu'r gallu i wneud penderfyniadau a myfyrio ar eu dysgu, fel cyfranogi'n dda i’w heriau yn annibynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith fanteisiol ymarfer corff ar eu hiechyd, fel dringo ar gyfarpar antur. Maent yn cyfranogi’n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol, sydd wedi eu cynllunio’n bwrpasol i ddatblygu unigolion iach a hyderus. Yn ogystal, mae gan ddisgyblion wybodaeth gadarn am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn bod yn ddiogel ar-lein.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n ddinasyddion moesegol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb. Trwy eu hymchwil a’u trafodaethau synhwyrol, maent yn dechrau deall bod parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel rhan o gymdeithas amrywiol yn bwysig. Enghraifft dda o hyn yw’r modd y maent yn ymchwilio i fywyd a hanes y brifathrawes Betty Campbell ac yn defnyddio’r wybodaeth i ystyried yr hyn sy’n cyfrannu at gymdeithas sy’n parchu cydraddoldeb.

Mae lles ac agweddau at ddysgu'r disgyblion yn gadarn ac yn cyfrannu’n dda i’w hymrwymiad clir i ddatblygu eu medrau creadigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfranwyr brwdfrydig wrth ddatblygu eu medrau artistig. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn fentrus tra'n arbrofi’n llwyddiannus ag amrywiaeth o gyfryngau, fel peintio lluniau o nodweddion Cymru, sy’n cynnwys cenhinen bedr a’r ddraig goch. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau fel cyfranwyr uchelgeisiol a chreadigol yn effeithiol. Maent yn cyfrannu’n gydwybodol i'w hymdrechion i lwyddo mewn byd busnes, trwy greu a gwerthu canhwyllau a threfnu arwerthiant cist car ar safle’r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn barod i ymgymryd â rolau arweiniol a chyfrifol. Maent yn chwarae rhan gynhyrchiol ym mywyd a gwaith yr ysgol fel aelodau o’r cyngor ysgol a’r cyngor eco. Er enghraifft, mae aelodau’r cynghorau yn annog disgyblion i fwyta ffrwythau’n ddyddiol o’u stondin ffrwythau.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau difyr, yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru, sy'n cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da o’u mannau

cychwyn. Mae’r athrawon yn cynllunio profiadau sy’n canolbwyntio’n effeithiol ar gyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn hyrwyddo eu dysgu annibynnol yn bwrpasol.

Ar draws yr ysgol, mae cynefin y disgyblion yn cael sylw blaengar, fel astudiaethau’r disgyblion hŷn ar hanes ffermydd yr ardal. Yn ogystal, mae’r disgyblion iau yn cael profiadau gwerthfawr wrth deithio o gwmpas y pentref yn edrych ar ehediad barcutiaid, addoldai, siopau lleol a’r tirlun gwledig. O ganlyniad, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu dilys ac effeithiol, sy’n targedu diddordebau disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r athrawon yn annog disgyblion i gyfrannu eu barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn ddeallus, trwy lenwi mapiau meddwl ar y cyd ar ddechrau themâu astudio. Maent yn cymryd sylw o awgrymiadau disgyblion yn synhwyrol wrth gynllunio ar draws meysydd y cwricwlwm. Maent yn croesawu'r safbwyntiau hyn ac yn eu defnyddio'n fwriadus fel rhan o brofiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod rhoddion o wasanaethau diolchgarwch yn cyrraedd banc bwyd lleol yn dilyn awgrymiadau’r disgyblion. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn rhannu eu profiadau'n dda ag eraill, gan fod eu dysgu yn berthnasol i’w hegwyddorion.

Mae’r addysgu’n dda ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn herio disgyblion i gynhyrchu eu gwaith gorau mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw lefel yr her yn ddigon cyson mewn lleiafrif o weithgareddau dysgu er mwyn bodloni anghenion y disgyblion yn gwbl effeithiol.

Caiff disgyblion brofiadau cynhwysfawr i ddatblygu eu medrau gwrando, siarad, darllen, rhifedd a’u cymwyseddau digidol. Er enghraifft, mae cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ieuengaf bwyso a mesur eu syniadau cyn creu collage i adlewyrchu trefn lliwiau’r enfys. Yn ogystal, mae’r disgyblion hŷn yn cael cyfleoedd ysgogol i drafod yn ddeallus gyflogau gweithwyr gwahanol a’r cyfyngiadau cyflymder newydd i drafnidiaeth yng Nghymru. Mae athrawon yn sicrhau bod trefniadau addas i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio’n ddigon effeithiol er mwyn i’r disgyblion gymhwyso’u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u lles a'u hunaniaeth yn llwyddiannus. Mae’r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i ddigwyddiadau byd-eang a bywydau pobloedd gwahanol ar draws y byd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 yn ymchwilio i’r amrywiaeth sy’n bodoli yn y byd ac mae disgyblion hŷn yr ysgol yn astudio effaith trychinebau ar gymunedau fel Aberfan. Yn ogystal, mae’r cynllunio’n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a Chymreictod yn llwyddiannus ac mae’r holl staff yn hyrwyddo manteision dysgu a defnyddio’r Gymraeg yn frwdfrydig.

Mae'r berthynas broffesiynol rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Ar y cyfan, maent yn darparu gweithgareddau sydd wedi'u teilwra'n bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion, sy’n cynnwys y rhai sydd angen cymorth â’u gwaith. Mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth werthfawr i'r disgyblion hyn, gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu i'r disgybl ddyfalbarhau'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o wersi'n symud yn gyflym, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo.

Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu ac arferion priodol i ymateb i waith disgyblion yn ystod gwersi. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn rhannu adborth yn fedrus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu'r disgyblion, ac i dargedu unrhyw ddifaterwch neu waith anghywir yn brydlon. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ar draws yr ysgol yn amrywiol. Mae athrawon yn tueddu i ddilyn ac ysgrifennu'r un math o adborth yn aml. O ganlyniad, nid yw'r adborth yn arwain at welliannau i ddarnau gwaith disgyblion nac yn targedu y camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon bwriadus.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu diddorol lle defnyddir ardaloedd penodol yn bwrpasol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae staff yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu defnyddiol y tu mewn i'r adeilad i gefnogi disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored sydd ar gael yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu ysgogol a rheolaidd yn yr awyr agored yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, ac mae ei hethos yn gynhwysol a chydweithredol. Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol yn nodwedd gref rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion. Mae athrawon a chymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn dwymgalon i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at eu hapusrwydd a'u lles. Mae ymagweddau'r staff a'r awyrgylch bositif yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n hawdd ym mywyd yr ysgol. Mae arferion buddiol yr ysgol yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at ddysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hadnabod ag ADY yn effeithiol. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n gydwybodol gydag aelodau eraill o staff, partneriaid allanol ac ysgolion lleol i sicrhau bod unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn cael eu hadnabod, eu holrhain a'u cefnogi'n dda o oedran cynnar. Mae adolygiadau cynnydd disgyblion yn golygu bod gan aelodau o staff ddealltwriaeth glir o anghenion disgyblion. Mae staff yn rhyngweithio'n fuddiol ag ystod o wasanaethau i sicrhau adnoddau ychwanegol amserol ac i gynnig cymorth arbenigol i ddisgyblion ag ystod o anghenion dysgu, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod disgyblion, sy'n elwa ar gymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u cyfnod datblygu a'u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael cefnogaeth ofalgar a chynhwysol.

Mae gan yr ysgol weithdrefn gynhwysfawr i gasglu gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r weithdrefn olrhain i fonitro cynnydd disgyblion yn eu dosbarthiadau yn rheolaidd. Mae'r staff yn asesu cyflawniadau disgyblion a'u lles yn ddeallus, sy'n golygu bod athrawon yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion pob disgybl. Pan fydd staff yn nodi materion i'w gwella, mae'r ysgol yn darparu cymorth ac ymyraethau synhwyrol i wella dysgu disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r rhaglenni ymyrraeth i wella medrau siarad, darllen, lles a chymdeithasol disgyblion yn strwythuredig ac yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth yn cymell disgyblion i fwynhau a chymryd rhan yn eu gweithgareddau yn egnïol. O ganlyniad, mae'r disgyblion a dargedir yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r

gefnogaeth ar lawr y dosbarth, sy'n canolbwyntio ar ddysgu a lles disgyblion, yn effeithiol ac maent yn galluogi disgyblion i gyfrannu i wersi'n bwrpasol. Mae hyn yn cyfoethogi eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol, ac yn eu galluogi i rannu eu teimladau â'i gilydd yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod dda o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu ac maent yn cynnwys, er enghraifft, teithiau i ymchwilio i hanes Castell Dinbych ac i Langrannog i gwblhau astudiaethau arfordirol. Mae ymchwil ar drychinebau byd eang, fel rhyfeloedd, sychder a newyn, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch a'r hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddwch. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i fedrau cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion. Yn ogystal, mae cyfleoedd pwrpasol ar gael i ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys hanesion lleol, fel hanes William Salisbury a gyfieithodd y Testament Newydd Groegaidd i'r Gymraeg, a bywyd arwyr yr ardal fel y reslwr enwog El Bandito.

Mae'r ysgol yn cyflwyno gwersi synhwyrol sy'n archwilio hawliau dynol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Elfen gadarnhaol o'r gwersi yw eu bod yn annog trafodaethau gan ddisgyblion, sy'n datblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r dulliau strwythuredig hyn mewn gwersi penodol a sesiynau addoli ar y cyd yn cynnwys cyfleoedd i archwilio materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o bob rhan o'r byd.

Mae staff yn sicrhau bod lles a diogelwch disgyblion yn rhan annatod o fywyd yr ysgol ac maent ar flaen y gad o ran eu cyfrifoldebau dyddiol. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd cadw'n ddiogel. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio heddweision i dynnu sylw disgyblion at beryglon camddefnyddio sylweddau a'u haddysgu am ddiogelwch ar y rhyngrwyd.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithlon. Caiff unrhyw absenoldebau parhaus eu monitro'n drwyadl, ac mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o fwlio honedig yn dda. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn dda ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod deilliannau disgyblion wrth wraidd ei weledigaeth. Mae llywodraethwyr yn cefnogi ei hathroniaeth ac mae staff yn gweithredu'n ddiwyd ar ddisgwyliadau uchel arweinwyr. Mae arweinwyr yn creu awyrgylch gofalgar a chynhwysol ymysg yr holl staff a'r disgyblion. Mae staff a disgyblion yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol ac yn gweithredu'n gydwybodol ar hyrwyddo 'Diben ein Dysgu yw Disgleirio'. O ganlyniad, mae'r meddylfryd cadarnhaol hwn yn creu ethos o gydweithio, sy'n cael effaith bwrpasol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu.

Mae gan arweinwyr ddarlun clir a chytbwys o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r cysylltiad rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn gadarn. Mae hyn yn golygu bod arweinwyr yn blaenoriaethu eu canfyddiadau'n ddoeth ac yn pennu targedau pwrpasol i symud yr ysgol ymlaen, fel

gwella medrau rhifedd disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol yn effeithiol gyda'r holl staff.

Mae prosesau sefydlog gan arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac maent wedi'u seilio ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r systemau i wella ansawdd yn cynnwys cynnal sgyrsiau â'r disgyblion am eu gwaith, gwerthuso effaith yr addysgu a dadansoddi data i fesur cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn casglu barnau partneriaid eraill yn ddeallus ac yn ystyried safbwyntiau rhieni a gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i gysylltu â rhieni ac i arddangos profiadau dyddiol eu plant iddynt.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar sefydlu dealltwriaeth gyffredin o werthoedd proffesiynol ymhlith y staff. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithredoedd y staff yn canolbwyntio ar ddarparu prosesau cytûn er lles y disgyblion. Er enghraifft, mae'r cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n dda ac yn defnyddio'r ardal leol fel sbardun. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â chynrychiolwyr o'r gymuned i greu llyfryn am eu pentref ac astudio taith yr afon Creiniog.

Mae'r trefniadau i ddosbarthu rolau arwain ac i ddwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith yn fwriadus, ac yn deillio o arferion rheoli perfformiad cyson. Yn ogystal, mae trefniadau trwyadl ar waith i gyflawni dyletswyddau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu effeithiol ar gael i staff i gefnogi eu dysgu proffesiynol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Un o nodweddion cadarnhaol y broses yw bod y staff yn datblygu medrau effeithiol, a'u defnyddio'n dda, i wella deilliannau disgyblion. Er enghraifft, maent yn mynychu hyfforddiant i ddatblygu'r cynllunio ymhellach ac i asesu cyflawniadau disgyblion unigol yn effeithlon, sy'n cyfrannu at wella deilliannau disgyblion yn fwriadus.

Mae'r ysgol yn ymweld ag ysgolion lleol i brofi eu harferion llwyddiannus, ac mae hyn yn cefnogi gallu'r ysgol i wella'n barhaus. Mae'r strategaeth hon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r staff yn cael cyfleoedd cynhyrchiol i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r safle. Mae hyn yn cynnwys datblygu mannau awyr agored yn greadigol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n bwrpasol ac maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i ddarparu rhaglenni cymorth ar draws yr ysgol. Yn ogystal, mae'r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth fuddiol i symud disgyblion ymlaen â'u dysgu.

Mae mewnbwn llywodraethwyr, trwy is-bwyllgorau a'r corff llawn, yn creu gwelliannau cadarn ar draws yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth yn frwd, ac maent yn ei dwyn i gyfrif fel ffrindiau beirniadol. Mae'r pennaeth yn hysbysu llywodraethwyr yn ystyrlon am ddysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, maent yn gweithredu'n dda ar wella'r ddarpariaeth, fel defnyddio rhoddion ariannol i ddatblygu ardaloedd darllen a chyfleoedd i drafod llyfrau ar draws yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn hyrwyddo arferion cadarn i sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach ac

mae arweinwyr yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu pecynnau bwyd.

Mae llywodraethwyr yn manteisio ar ddatblygu dealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau’r ysgol, sydd o fudd i wneud gwelliannau. Er enghraifft, maent yn ymgymryd â theithiau dysgu ac yn trafod gwaith gyda’r disgyblion i fesur dealltwriaeth disgyblion o’u gwaith. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth werthfawr o arferion cyfredol yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn monitro'r cyllid yn rheolaidd a chraff ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/05/2024